Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Bydd y cwrs yma yn eich helpu chi i ddysgu am:

- Pwysigrwydd gweithio fel rhan o dîm;
- Iechyd a Diogelwch yn y gweithle;
- Datblygu eich sgiliau personol a chymdeithasol;
- Bod yn hyderus mewn llythrennedd a rhifedd ac mewn cyfathrebu dwyieithog;
- Meithrin agwedd positif, addas tuag at ddysgu gydol oes a chyflogaeth.

Sut fyddai'n dysgu?

Byddwch yn cael eich lleoli mewn cwmni lleol. Fel rheol fe ddefnyddir Cwmni Rheilffordd Ffestiniog a Chwmni Gelert i gyflwyno'r cwrs ym mlwyddyn 10. Caiff y disgyblion dreulio diwrnod yr wythnos am y flwyddyn addysgol yn gweithio gydag oedolion o fewn y cwmnïau a blasu'r gwahanol brofiadau y gall y cwmnïau eu cynnig.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Bydd y cyflogwr yn llenwi ffurflen a ddarperir gan yr ysgol ar ddiwedd y tymhorau ysgol. Bydd monitro rheolaidd o'r disgybl yn y lleoliadau gan yr ysgol.

Cofiwch!

Mae pwyslais cryf ar rinweddau pwysig megis presenoldeb rheolaidd, prydlondeb a gweithio fel rhan o dîm.

Profiad Gwaith Estynedig

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mr. Gareth Connick

Ysgol Eifionydd
Porthmadog